
# Cynllun PROSOIL+ Project

## "Ysbrydoli Ffermwyr i Warchod Priddoedd"

### Newyddlen 2

**Croeso** i ail newyddlen y prosiect PROSOILplus. Yn y newyddlen hon, fe rannwn newyddion gyda chi am weithgaredd y Ffermydd Ymchwil Cyfranogol.
Mae gweithgaredd PROSOILplus yn eich ardal chi yn canolbwyntio ar un o'n chwe Fferm Ymchwil Gyfranogol yng Nghymru.




Nod cyffredinol y prosiect yw gwarchod pridd a manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd y defnydd o faetholion o'r pridd ar ffermydd da byw. Gwneir hyn trwy gynnal gweithgareddau ar y fferm yn ôl amcanion y 5 thema ganlynol:

1. *Rheoli a gwarchod tirweddau*
2. *Diogelu a gwella bioamrywiaeth*
3. *Rheoli pridd i ddiogelu C a lleihau erydiad*
4. *Cefnogi cydweithio ar gyfer newidiadau technolegol*
5. *Gwella goferiad dŵr wyneb a rheoli dŵr i helpu i leihau'r perygl o lifogydd*



Yn fferm **Penygelli**, rydym wedi dechrau edrych ar ffyrdd o sefydlu cnwd o fetys porthiant ar gyfer defaid sy'n pori gan ddefnyddio technegau troi tir lleiafsymiol



Yn **Gelli Fach**, mae'r gweithgaredd eleni yn canolbwyntio ar wyndonnydd aml-rywogaeth a sefydlwyd naill ai trwy ddulliau hau confensiynol neu or-hau

Mae **Lan Farm** yn newydd i'r prosiect eleni;



rydym yn edrych ar fanteision meillion cochion, llyriad a rhygwellt fel ungnwd ac fel cnydau cymysg



Yn **Orchard View,** rydym wedi bod yn archwilio manteision sicori a llyriad ar gyfer porfa defaid

Yn **Bank Farm,** sefydlwyd nifer o gnydau trwy ddrilio uniongyrchol, naill ai fel ungnwd neu fel cnydau cymysg



Yn **Rhual Dairy,** rydym wedi dechrau edrych ar y manteision o hadu gwair ymhlith yr indrawn yn ystod yr haf a'r hydref.

Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, mae gennym leiniau bychain ar bob fferm yn edrych ar fanteision a dylanwad calch ar rinweddau cemegol a ffisegol y pridd rydym wedi bod yn ei fonitro. Mwy ynghylch hynny yn y newyddlen nesaf!

*Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau darllen yr ail newyddlen hon ac edrychwn ymlaen at rannu mwy o newyddion am weithgaredd ymchwil IBERS gyda chi yn ein rhifyn nesaf. Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan www.prosoil.cymru. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, gallwch anfon ebost at Jan Newman jln@aber.ac.uk*

Ariennir y cynllun hwn trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.